



Deddf Deddfau Trethi Cymru etc.
(Pŵer i Addasu) 2022

2022 dsc 2

Nodiadau Esboniadol

Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify)
Act 2022

2022 asc 2

Explanatory Notes

£6.90

DEDDF DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU) 2022

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 12 Gorffennaf 2022 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022. Fe'u lluniwyd gan Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

CEFNDIR Y DDEDDF A CHRYNODEB OHONI

2. Mae Senedd Cymru ("y Senedd") wedi pasio tair Deddf sy'n ymwneud â threthu; Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ('DCRiT'), Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ('DTT') a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 ('DTGT'). Cyfeirir at y tair Deddf hyn gyda'i gilydd fel 'Deddfau Trethi Cymru' yn y Ddeddf.
3. Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud newidiadau, drwy reoliadau, i Ddeddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny, os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol gwneud y newidiadau hynny at unrhyw un neu ragor o'r pedwar diben a bennir yn y Ddeddf.
4. Gellir gwneud y rheoliadau naill ai o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, neu mewn achosion brys yn unig, o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' (trafodir hyn ymhellach isod).

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 - Pŵer i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru etc.

5. Mae **adran 1(1)** yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n addasu Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir odanynt os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr addasiadau'n angenrheidiol neu'n briodol at unrhyw un neu ragor o'r dibenion a ganlyn neu mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor ohonynt—
6. **Is-adran 1(1)(a)** - sicrhau na osodir treth trafodiadau tir a threth gwarediadau tirlenwi pan fyddai gwneud hynny yn anghydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol. Gellid defnyddio'r pŵer yn adran 1 at y diben hwn, er enghraifft, pan ymrwymir i gytundeb masnach neu gytundeb trethiant dwbl â gwlad arall a phan fo gosod treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir mewn achos penodol yn groes i'r cytundeb hwnnw.

WELSH TAX ACTS etc. (POWER TO MODIFY) ACT 2022

EXPLANATORY NOTES

INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify) Act 2022 (“the Act”) which was passed by Senedd Cymru on 12 July 2022 and received Royal Assent on 8 September 2022. They have been prepared by the Economy, Treasury and Constitution Group of the Welsh Government in order to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

BACKGROUND AND SUMMARY OF THE ACT

2. Senedd Cymru (“the Senedd”) has passed three Acts that relate to taxation; the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (“TCMA”), the Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017 (“LTTA”) and the Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017 (“LDTA”). These three Acts are collectively referred to as the ‘Welsh Tax Acts’ in the Act.
3. The Act provides the Welsh Ministers with a power to make changes, by means of regulations, to the Welsh Tax Acts and regulations made under those Acts, if the Welsh Ministers consider that it is necessary or appropriate to make those changes for or in connection with any of the four purposes specified in the Act.
4. The regulations can be made either under the draft affirmative procedure, or in urgent cases only, under the made affirmative procedure (discussed further below).

COMMENTARY ON SECTIONS

Section 1 – Power to amend the Welsh Tax Acts etc.

5. **Section 1(1)** provides that the Welsh Ministers may make regulations which modify the Welsh Tax Acts and regulations made under them if the Welsh Ministers consider that the modifications are necessary or appropriate for or in connection with any of the following purposes –
6. **Subsection 1(1)(a)** – to ensure that land transaction tax and landfill disposals tax are not imposed where to do so would be incompatible with any international obligations. The power in section 1 might be used for this purpose, for example, where a trade deal or double taxation agreement is concluded with another country and the imposition of landfill disposals tax or land transaction tax in a particular case is contrary to that deal or agreement.

7. **Is-adran 1(1)(b)** – diogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi a threth trafodiadau tir. Efallai y bydd Gweinidogion Cymru am gymryd camau o'r fath pan fônt o'r farn y bydd diwygio'r ddeddfwriaeth yn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth ynghylch y ffordd y bwriedir ei chymhwyso, yn ogystal ag mewn achosion pan fanteisir ar fwllch. Ni ddiffinnir osgoi trethi yn y Ddeddf ac felly mae'n cymryd ei ystyr naturiol.
8. **Is-adran 1(1)(c)** – ymateb i newidiadau a wneir i'r trethi rhagflaenol sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar y symiau a delir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Diffinnir y trethi rhagflaenol yn adran 1(4) fel treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi.
9. **Is-adran 1(1)(d)** – ymateb i benderfyniad llys neu dribiwnlys sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar weithrediad Deddfau Trethi Cymru neu reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny. Ni fydd y penderfyniadau hyn o reidrwydd yn benderfyniadau ynghylch darpariaethau Deddfau Trethi Cymru eu hunain, neu eu rheoliadau cysylltiedig. Gall penderfyniadau sy'n effeithio ar y trethi rhagflaenol neu benderfyniadau ynghylch pwyntiau cyfreithiol cyffredinol hefyd effeithio ar weithrediad Deddfau Trethi Cymru a'u rheoliadau cysylltiedig.
10. Mae **adran 1(2)** yn nodi bod cyfyngiadau penodol ar y pŵer cyffredinol a ddarperir i Weinidogion Cymru gan adran 1. Nodir y cyfyngiadau hynny yn adrannau 2(4), (5) a (6) ac fe'u trafodir ymhellach isod.
11. Mae **adrannau 1(3)** ac **1(4)** yn darparu cyfres o ddiffiniadau.

Adran 2 – Rheoliadau o dan adran 1: atodol

12. Mae adran 2(1) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 osod treth gwarediadau tirlenwi a threth trafodiadau tir a gosod neu estyn atebolrwydd i gosb.
13. Mae adran 2(2) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 gael effaith ôl-weithredol, cyn belled ag-
 - nad yw'r rheoliadau yn gosod unrhyw gosb newydd neu'n estyn atebolrwydd i unrhyw gosb bresennol yn ôl-weithredol (adran 2(2)(a));
 - nad yw rheoliadau sy'n creu neu'n cynyddu atebolrwydd i dreth trafodiadau tir neu dreth gwarediadau tirlenwi yn ôl-weithredol yn cael effaith o ddyddiad sy'n gynharach na'r dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd yn nodi eu bwriad i wneud rheoliadau o'r fath (adran 2(2)(b));
 - nad yw rheoliadau sy'n lleihau neu'n tynnu yn ôl hawlogaeth i gredyd treth gwarediadau tirlenwi yn ôl-weithredol yn cael effaith o ddyddiad sy'n gynharach na'r dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiad llafar neu ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd yn nodi eu bwriad i wneud rheoliadau o'r fath (adran 2(2)(c)).
14. Mae adran 2(3)(a) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.

7. **Subsection 1(1)(b)** – to protect against tax avoidance in relation to landfill disposals tax and land transaction tax. The Welsh Ministers may wish to take such action where they consider that amendment of the legislation will put its intended application beyond any doubt, as well as in cases where a loophole is being exploited. Tax avoidance is not defined in the Act. It therefore takes its natural meaning.
8. **Subsection 1(1)(c)** – to respond to changes made to the predecessor taxes which affect, or may affect, the amounts paid by the Secretary of State into the Welsh Consolidated Fund. The predecessor taxes are defined in section 1(4) as being stamp duty land tax and landfill tax.
9. **Subsection 1(1)(d)** – to respond to a court or tribunal decision which affects, or may affect the operation of the Welsh Tax Acts or regulations made under those Acts. These decisions need not necessarily be decisions on the provisions of the Welsh Tax Acts themselves, or their associated regulations. Decisions affecting the predecessor taxes or on general points of law may also be capable of affecting the operation of the Welsh Tax Acts and their associated regulations.
10. Section 1(2) places certain restrictions on the general power provided to the Welsh Ministers by section 1. Those restrictions are set out in sections 2(4), (5) and (6) and are discussed further below.
11. Sections 1(3) and 1(4) provide a series of definitions.

Section 2 – Regulations under section 1: supplementary

12. Section 2(1) permits regulations made using the power in section 1 to impose landfill disposals tax and land transaction tax and to impose or extend liability to a penalty.
13. Section 2(2) allows regulations made using the power in section 1 to have retrospective effect, as long as-
 - the regulations do not retrospectively impose any new penalty or extend liability to any existing penalty (section 2(2)(a));
 - those regulations that retrospectively create or increase a liability to land transaction tax or landfill disposals tax, do not have effect from a date earlier than the date of an oral or written statement to the Senedd by the Welsh Ministers (section 2(2)(b));
 - those regulations that retrospectively reduce or withdraw an entitlement to a landfill disposals tax credit, do not have effect from a date earlier than the date of an oral or written statement to the Senedd by the Welsh Ministers (section 2(2)(c)).
14. Section 2(3)(a) allows the regulations made using the power in section 1 to make different provision for different purposes.

15. Mae adran 2(3)(b) yn caniatáu i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 wneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol etc.
16. Nid yw adrannau 2(1) i 2(3) yn rhestr gynhwysfawr o'r hyn y caniateir i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer yn adran 1 ei wneud.
17. Mae adran 2(4)(a) yn atal y pŵer yn adran 1 rhag cael ei ddefnyddio i addasu Rhan 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Rhan honno. Mae'r darpariaethau hynny'n ymwneud yn bennaf â chreu Awdurdod Cyllid Cymru a'i lywodraethiant.
18. Mae adran 2(4)(b) ac (c) yn atal y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 rhag cael ei ddefnyddio i addasu rheoliadau sy'n pennu cyfraddau a bandiau ar gyfer treth trafodiadau tir neu gyfraddau treth ar gyfer gwarediadau tirlenwi. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes y pŵer i addasu'r cyfraddau a'r bandiau treth hynny drwy gyfrwng rheoliadau, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.
19. Mae adran 2(5) yn gwahardd rheoliadau a wneir o dan adran 1 rhag gwneud darpariaeth sy'n ymwneud ag ymchwilio i droseddau.
20. Mae adran 2(6) yn gwahardd rheoliadau a wneir o dan adran 1 rhag newid unrhyw weithdrefn gan y Senedd ar gyfer gwneud offerynnau statudol o dan Ddeddfau Trethi Cymru. Er enghraifft, os bydd darpariaeth yn Neddfau Trethi Cymru yn darparu bod rhaid i offeryn gael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ni chaiff rheoliadau o dan adran 1 addasu'r ddarpariaeth honno fel bod rhaid i'r offeryn gael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.
21. Mae adran 2(7) yn darparu nad yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 yn effeithio ar unrhyw bŵer arall sydd gan Weinidogion Cymru eisoes i wneud rheoliadau yn Neddfau Trethi Cymru. Yn yr un modd, nid yw gallu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau eraill yn Neddfau Trethi Cymru yn effeithio ar y pŵer yn adran 1.

Adran 3 – Datganiad polisi: rheoliadau o dan adran 1 sy'n cael effaith ôl-weithredol

22. Mae adran 3(1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ynghylch eu polisi mewn cysylltiad ag arfer y pŵer i wneud rheoliadau sy'n cael effaith ôl-weithredol.
23. Mae adran 3(2) yn darparu bod rhaid cyhoeddi'r datganiad cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.
24. Mae adran 3(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio eu datganiad polisi. Os gwnânt hynny, rhaid iddynt gyhoeddi'r datganiad diwygiedig hwn.

Adran 4 – Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau o dan adran 1

25. Mae adran 4(1) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 1 yn arferadwy drwy offeryn statudol.

*These notes refer to the Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify) Act 2022 (asc 2)
which received Royal Assent on 8 September 2022*

15. Section 2(3)(b) allows the regulations made using the power in section 1 to make incidental, consequential, supplementary etc. provision.
16. Sections 2(1) to 2(3) are not an exhaustive list of what regulations made using the power in section 1 may do.
17. Section 2(4)(a) prevents the power in section 1 from being used to modify Part 2 of the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016. Those provisions relate primarily to the creation of the Welsh Revenue Authority and its governance.
18. Section 2(4)(b) and (c) prevent the regulation-making power in section 1 from being used to modify regulations setting rates and bands for land transaction tax or tax rates for landfill disposals. The Welsh Ministers already have the power to modify those tax rates and bands by means of regulations, which are subject to the made affirmative procedure.
19. Section 2(5) prohibits regulations made under section 1 from making provision that relates to the investigation of criminal offences.
20. Section 2(6) prohibits regulations made under section 1 from altering any Senedd procedure for making statutory instruments under the Welsh Tax Acts. For example, regulation making powers subject to the draft affirmative procedure within the Welsh Tax Acts cannot be changed to be made subject to the made affirmative procedure.
21. Section 2(7) provides that the regulation-making power in section 1 does not affect any other power the Welsh Ministers already have to make regulations in the Welsh Tax Acts. Equally, the power in section 1 is not affected by the ability of the Welsh Ministers to make regulations using existing powers in the Welsh Tax Acts.

Section 3 – Policy statement: regulations under Section 1 which have retrospective effect

22. Section 3(1) places a duty on the Welsh Ministers to publish a statement on their policy with respect to the exercise of the power to make regulations that have retrospective effect.
23. Section 3(2) provides that the statement must be published before the end of the period of three months beginning with the date the Act receives Royal Assent.
24. Section 3(3) allows the Welsh Ministers to revise their statement of policy. If they do so, this revised statement must be published.

Section 4 – Procedure for regulations under section 1

25. Section 4(1) provides that the power to make regulations under section 1 is exercisable by statutory instrument.

26. Mae adran 4(2) yn darparu y caniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 1 naill ai o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu, pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen eu gwneud ar frys, o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'.
27. O dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ni chaniateir gwneud offeryn statudol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi.
28. O dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', caniateir gwneud offeryn statudol a chaniateir iddo ddod i rym cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd. Pan ddefnyddir y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', mae adran 4(4) yn darparu bod rhaid gosod yr offeryn gerbron Senedd Cymru, ac mae adran 4(5) yn darparu bod rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau o fewn cyfnod o 60 niwrnod ar y mwyaf¹ er mwyn i'r rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr offeryn barhau i gael effaith ar ôl i'r cyfnod hwnnw ddod i ben. Mae adran 4(6) yn darparu, pan fo'r Senedd yn pleidleisio ar gynnig i gymeradwyo'r offeryn cyn diwedd y cyfnod o 60 niwrnod ac na chaiff yr offeryn ei gymeradwyo, y bydd y rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr offeryn yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y diwrnod y cynhelir y bleidlais. Mae adran 4(7) yn darparu na chaniateir gwneud unrhyw gynnig yn y Senedd i gymeradwyo'r offeryn a wneir o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' (ac felly ni chaiff y Senedd ystyried yr offeryn na phleidleisio arno) hyd nes y bydd 28 o ddiwrnodau² wedi mynd heibio o'r dyddiad (ac yn cynnwys y dyddiad) y gwneir yr offeryn.

Adran 5 – Rheoliadau'n peidio â chael effaith: atodol

29. Mae adran 5 yn nodi'r hyn sy'n digwydd os yw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan adran 1 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' ond yn methu â chael cymeradwyaeth y Senedd (a'r rheoliadau sydd wedi eu cynnwys yn yr offeryn hwnnw felly'n peidio â chael effaith).
30. Mae adran 5(2) yn darparu bod unrhyw atebolrwydd, neu atebolrwydd uwch, i dreth trafodiadau tir neu dreth gwarediadau tirlenwi na fyddai wedi codi oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi codi.
31. Mae adran 5(3) yn darparu bod unrhyw dynnu yn ôl hawlogaeth i gredyd treth, neu leihau hawlogaeth o'r fath (mewn perthynas â threth gwarediadau tirlenwi) na fyddai wedi digwydd oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi digwydd.
32. Mae adran 5(4) yn darparu bod unrhyw atebolrwydd i gosb, neu gynyddu swm cosb, na fyddai wedi digwydd oni bai am y rheoliadau i'w drin fel pe na bai erioed wedi codi.

¹ Nid yw'r cyfnod o 60 niwrnod yn cynnwys unrhyw gyfnod pan fo Senedd Cymru wedi ei diddymu na phan fo ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

² Nid yw'r cyfnod o 28 o ddiwrnodau yn cynnwys unrhyw gyfnod pan fo Senedd Cymru wedi ei diddymu na phan fo ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

26. Section 4(2) provides that a statutory instrument containing regulations under section 1 may be made either under the draft affirmative or, where the Welsh Ministers consider there is a need to make them urgently, under the made affirmative procedure.
27. Under the draft affirmative procedure, a statutory instrument cannot be made unless a draft of the instrument has been laid before Senedd Cymru and approved by it.
28. Under the made affirmative procedure a statutory instrument can be made and can come into force before it has been approved by the Senedd. Where the made affirmative procedure is used, section 4(4) provides that the instrument must be laid before Senedd Cymru, and section 4(5) provides that the Senedd must approve the regulations within a maximum period of 60 days¹ in order for the regulations contained in the instrument to remain in effect after that period ends. Section 4(6) provides that where the Senedd votes on a motion to approve the instrument before the end of the 60-day period and the instrument is not approved, the regulations contained in the instrument will cease to have effect at the end of the day on which the vote takes place. Section 4(7) provides that any motion to approve the instrument made under the made affirmative procedure cannot be moved in the Senedd (and so the instrument cannot be considered and voted upon by the Senedd) until 28 days have elapsed from (and including) the date the regulations are made².

Section 5 – Regulations ceasing to have effect: supplementary

29. Section 5 sets out what happens if a statutory instrument containing regulations under section 1 is made under the made affirmative procedure but fails to achieve Senedd approval (and so the regulations contained in that instrument cease to have effect).
30. Section 5(2) provides that any liability, or increased liability, to land transaction tax or landfill disposals tax that would not have arisen but for the regulations is to be treated as never having arisen.
31. Section 5(3) provides that any withdrawal of an entitlement to a tax credit, or reduction in such an entitlement (in relation to landfill disposals tax) that would not have occurred but for the regulations is to be treated as never having occurred.
32. Section 5(4) provides that any liability to a penalty, or an increase to the amount of a penalty, that would not have occurred but for the regulations is to be treated as never having arisen.

¹ The 60-day period does not include any period during which Senedd Cymru is dissolved or is in recess for more than 4 days.

² The 28-day period does not include any period during which Senedd Cymru is dissolved or is in recess for more than 4 days.

33. Mae adran 5(5) yn darparu nad yw'r ffaith bod y rheoliadau wedi peidio â chael effaith yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wnaed o dan y rheoliadau neu drwy ddibynnu arnynt. Bydd hyn yn sicrhau bod camau a gymerwyd gan y trethdalwr yn unol â'r rheoliadau yn ystod y cyfnod roeddent yn cael effaith yn parhau'n ddilys, ac yn yr un modd bydd yn diogelu camau a gymerwyd gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Adran 6 - Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf hon

34. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf a chyhoeddi casgliadau'r adolygiad hwnnw o fewn 4 blynedd i'r dyddiad y daw'r Ddeddf i rym. Rhaid i'r adolygiad hwnnw gynnwys asesiad o unrhyw fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru ac i reoliadau a wneir o dan y Deddfau hynny. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol wrth gynnal yr adolygiad.

Adran 7 - Y pŵer o dan adran 1 yn dod i ben

35. Mae adran 7(1) yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1 yn dod i ben bum mlynedd ar ôl y dyddiad y daw'r Ddeddf i rym, oni bai bod rheoliadau o dan adran 7(2) yn darparu bod y pŵer i barhau mewn grym am gyfnod pellach. Fodd bynnag, rhaid i'r cyfnod pellach hwnnw ddod i ben ar 30 Ebrill 2031 neu cyn hynny.
36. Dim ond unwaith y caniateir arfer y pŵer yn adran 7(2) (adran 7(3)).
37. Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y pŵer yn adran 7(2) gael ei wneud o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft (adran 7(4)).
38. Mae adran 7(5) yn darparu na chaniateir gosod rheoliadau a wneir o dan adran 7(2) gerbron y Senedd cyn i gasgliadau'r adolygiad sy'n ofynnol gan adran 6 gael eu cyhoeddi. Mae hefyd yn darparu na chaiff y Senedd gymeradwyo'r rheoliadau ar ôl i'r cyfnod cychwynnol o bum mlynedd ddod i ben.
39. Mae adran 7(6) yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 1, cyn i'r pŵer hwnnw ddod i ben, yn parhau mewn grym ar ôl iddo ddod i ben.

Adran 10 - Enw byr

40. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

41. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd yn:

[Bil Deddfau Trethi Cymru etc. \(Pŵer i Addasu\) \(senedd.cymru\)](https://www.senedd.cymru)

33. Section 5(5) provides that anything done under or in reliance on the regulations is not affected by the fact that the regulations have ceased to have effect. This will ensure that actions taken by the taxpayer in accordance with the regulations during the period they had effect are not unlawful, and also will similarly protect actions taken by the Welsh Revenue Authority.

Section 6 – Review of operation and effect of this Act

34. Section 6 imposes a duty on the Welsh Ministers to review the operation and effect of the Act and publish the conclusions of that review within 4 years of the date that the Act came into force. That review must include an assessment of any alternative legislative mechanisms to make changes to the Welsh Tax Acts. Furthermore, the Welsh Ministers must consult the Senedd and such other persons they consider appropriate as part of the review.

Section 7 – Expiry of the power under section 1

35. Section 7(1) provides that the power to make regulations in section 1 expires five years after the date that the Act comes into force, unless the Welsh Ministers make regulations under section 7(2) to extend that period for a further period up to a maximum end date of 30 April 2031.
36. The power in section 7(2) may be exercised only once (section 7(4)).
37. A statutory instrument containing regulations under that power must be made under the draft affirmative procedure.
38. Section 7(5) provides that the regulations, cannot be laid in draft before the conclusions of the review set out in section 6 have been published, and that the Senedd cannot approve the regulations after the initial five-year period has ended.
39. Section 7(6) provides that regulations made under section 1, before the expiry of that power, continue in force following its expiry.

Section 10 – Short title

40. The short title of this Act is the Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify) Act 2022.

RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

41. The following table sets out the dates for each stage of the Act’s passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:

[Welsh Tax Acts etc. \(Power to Modify\) Bill \(senedd.wales\)](https://www.senedd.wales)

*Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 (dsc 2)
a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022*

Cyfnod	Dyddiad
Cyflwynwyd	13 Rhagfyr 2021
Cyfnod 1 - Dadl	26 Ebrill 2022
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau	9 Mehefin 2022
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn - ystyried y gwelliannau	5 Gorffennaf 2022
Cam 4 Cymeradwywyd gan y Senedd	12 Gorffennaf 2022
Y Cydsyniad Brenhinol	8 Medi 2022

© 2022 Hawlfraint y Goron

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin

*These notes refer to the Welsh Tax Acts etc. (Power to Modify) Act 2022 (asc 2)
which received Royal Assent on 8 September 2022*

Stage	Date
Introduced	13 December 2021
Stage 1 - Debate	26 April 2022
Stage 2 Scrutiny Committee - consideration of amendments	9 June 2022
Stage 3 Plenary - consideration of amendments	5 July 2022
Stage 4 Approved by the Senedd	12 July 2022
Royal Assent	8 September 2022

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.



a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

Arlein

www.tsoshop.co.uk

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn Testun: 0333 202 5077

TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

Online

www.tsoshop.co.uk

Mail, Telephone, Fax & E-mail

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070


Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: customer.services@tso.co.uk

Textphone: 0333 202 5077

TSO@Blackwell and other Accredited Agents

ISBN 978-0-348-12019-6



9 780348 120196